## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A4042 (CYLCHFAN PONT-Y-PŴL I GYLCHFAN COURT FARM, TORFAEN) (TERFYN CYFLYMDER 50 MYA) 202-

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn drwy arfer eu pwerau o dan adrannau 14(1), (4) a (7), 84(1)(a) a (2) a 124(3)(b) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd cyflwyno terfyn cyflymder 50 mya parhaol ar y darnau o gefnffordd yr A4042 Casnewydd i Amwythig ("y gefnffordd") a bennir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Mae Gorchymyn terfyn cyflymder 50 mya dros dro (O.S. 2025/935 (Cy. 160)) ar waith ar hyn o bryd yn y lleoliad hwn a bydd yn cael ei ddirymu gan y Gorchymyn hwn.

Yn ystod cyfnod o 21 o ddiwrnodau o 16 Mehefin 2026 ymlaen, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn arfaethedig, y Datganiad o'r Rhesymau dros wneud y Gorchymyn a'r plan, yn rhad ac am ddim, yn Llyfrgell Pont-y-pŵl, Ffordd Hanbury, Pont-y-pŵl NP4 6JL.

Gellir gweld y dogfennau hefyd ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim drwy e-bostio Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at y Gangen Orchmynion yn y cyfeiriad isod, gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA2343772.

Rhaid anfon unrhyw wrthwynebiadau, gan nodi ar ba sail y'u gwneir, drwy e-bost i Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu'n ysgrifenedig i: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ erbyn 7 Gorffennaf 2026.

Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses ymgynghori, caniateir i ni roi gwybodaeth iddynt, gan gynnwys gwybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol. Fodd bynnag, ni fyddwn yn datgelu eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol er mwyn ymdrin â'r materion a godwyd. Os nad ydych yn dymuno i ddata personol gael eu hanfon ymlaen at drydydd parti, dylech ddatgan hyn wrth gyflwyno eich gohebiaeth a bydd Llywodraeth Cymru yn copïo'r sylwadau i'r trydydd parti priodol gyda'r enw a'r cyfeiriad wedi eu dileu. Os bydd Ymchwiliad Cyhoeddus lleol yn cael ei gynnal, bydd yr Arolygydd yn gweld y sylwadau ond efallai y bydd yn rhoi llai o sylw iddynt o ganlyniad i hyn.

## THE A4042 TRUNK ROAD (PONTYPOOL ROUNDABOUT TO COURT FARM ROUNDABOUT, TORFAEN) (50 MPH SPEED LIMIT) ORDER 202-

The Welsh Ministers propose to make an Order in exercise of their powers under sections 14(1), (4) and (7), 84(1)(a) and (2) and 124(3)(b) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The effect of the proposed Order will be to introduce a permanent 50 mph speed limit on the lengths of the A4042 Newport to Shrewsbury trunk road ("the trunk road") specified in the Schedule to this Notice. A temporary 50 mph speed limit Order (S.I. 2025/935 (W. 160)) is currently in place at this location and will be revoked by this Order.

During a period of 21 days from 16 June 2026, a copy of the proposed Order, the Statement of Reasons for making the Order and the plan may be inspected, free of charge, at Pontypool Library Hanbury Road, Pontypool NP4 6JL.

The documents can also be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders or obtained free of charge by e-mailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch at the address below, quoting reference number qA2343772.

Objections, specifying the grounds on which they are made, must be sent by e-mail to TransportOrdersBranch@gov.wales or in writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ by 7 July 2026.

Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the consultation process, we may pass information to them, including information you have given us and your personal data. We will, however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to address the issues raised. If you do not wish personal data to be forwarded to third parties, you should state this when submitting your correspondence and the Welsh Government will copy the representations to the appropriate third parties with the name and address removed. If there is to be a local Public Inquiry, the representations will be seen by the Inspector who may give them less weight as a result.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn, y Gorchymyn arfaethedig, y plan a'r Datganiad o'r Rhesymau, yn rhad ac am ddim, drwy e-bostio Trafnidiaeth.YGangenOrchmynion@llyw.cymru neu drwy ysgrifennu at: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**A copy of this Notice, the proposed Order, plan and Statement of Reasons can be obtained in larger print, free of charge, by emailing TransportOrdersBranch@gov.wales or writing to Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**C WYNN**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**C WYNN**
Transport
Welsh Government

**YR ATODLEN**

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 36 o fetrau i'r de o Gylchfan Pont-y-pŵl hyd at ei chyffordd ag ochr ddeheuol y gylchfan honno.

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 216 o fetrau i'r gogledd-ddwyrain o'r gylchfan honno.

Cerbytffordd gylchredol Cylchfan Pont-y-pŵl.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o bwynt 45 o fetrau i'r de o'i chyffordd ag ochr dde-ddwyreiniol Cylchfan Court Farm hyd at ei chyffordd ag ochr ogledd-ddwyreiniol Cylchfan Pont-y-pŵl.

Y darn o gerbytffordd tua'r de y gefnffordd sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr ddeheuol Cylchfan Pont-y-pŵl hyd at bwynt 40 metr i'r de o'r gylchfan honno.

**SCHEDULE**

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from a point 36 metres south of Pontypool Roundabout to its junction with the southern side of that roundabout.

The length of the northbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the north-eastern side of Pontypool Roundabout to a point 216 metres north-east of that roundabout.

The circulatory carriageway of Pontypool Roundabout.

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from a point 45 metres south of its junction with the south-eastern side of Court Farm Roundabout to its junction with the north-eastern side of Pontypool Roundabout.

The length of the southbound carriageway of the trunk road that extends from its junction with the southern side of Pontypool Roundabout to a point 40 metres south of that roundabout.